# Rheoli eich prosiect yn ddwyieithog

Os ydych yn derbyn arian gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gyflwyno prosiect yng Nghymru bydd angen i chi wneud hynny'n ddwyieithog, yn unol â Safonau Iaith Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae cynnig gwasanaethau eich prosiect yn Gymraeg a Saesneg yn un o amodau a thelerau eich grant, ond mae hefyd yn gyfle gwych i chi sicrhau fod pawb yn eich cymuned yn gallu cymryd rhan yn eich prosiect.

## Beth mae hyn yn ei olygu

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut y byddwch yn cyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog cyn cyflwyno eich cais am ariannu gan Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, gan y bydd angen i chi gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig yng nghyllideb eich prosiect.

- Os bydd eich prosiect yn cynnwys deunyddiau ysgrifenedig megis taflenni, posteri, llyfrynnau neu wefannau, bydd angen cynhyrchu'r rhain yn Gymraeg a Saesneg (fel dogfennau dwyieithog tipio a throi pryd bynnag y bo'n bosib)
- Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod o staff neu ddod a gweithwyr sesiynol i mewn gyda'ch grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol bydd angen i chi ystyried yn ofalus p'un a oes angen siaradwr Cymraeg arnoch i gyflawni'r dyletswyddau dan sylw
- Bydd angen i unrhyw hysbyseb ar gyfer swydd newydd neu weithwyr sesiynol gael ei gosod yn y cyfryngau ac ar lein yn ddwyieithog a bydd angen i'r broses recriwtio megis cyfweliadau fod ar gael yn y ddwy iaith
- Bydd angen i unrhyw ffilmiau y byddwch yn eu cynhyrchu gyda'n harian gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ble'n bosibl neu fel ffilmiau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Pan fyddwch yn hyrwyddo eich prosiect ar gyfryngau cymdeithasol, gwnewch hynny yn ddwyieithog, ble bynnag yn bosibl
- Gofynnwn i chi ystyried natur ieithyddol y gymuned rydych yn gweithio ynddi yn ystod cyfnod y grant a chynnig gwasanaethau yn unol â hynny.

## Beth sydd angen i chi ei wneud

Mae angen i chi ystyried eich costau o gyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog er mwyn eu cynnwys yng nghyllideb y prosiect. Gall y rhain gynnwys:

- costau cyfieithu deunyddiau cyhoeddusrwydd/ hyrwyddo
- costau cyfieithu cwmnïau gwefannau neu gwe- ddylunio dwyieithog
- costau recriwtio dwyieithog e.e cyfieithu hysbysebion a phecynnau recriwtio
- Costau cynhyrchu ffilmiau

## Pwy all helpu

Mae tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig cymorth a chyngor i'r trydydd sector a'r sector breifat ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eich gwaith. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys:

- Gwaith ymchwil a chanllawiau defnyddiol
- Cynllun Hybu'r Gymraeg
- Gwasanaeth prawf ddarllen
- Hyfforddiant 'Dwyieithrwydd ar Waith'
- Adnoddau 'Iaith Gwaith'

Am fwy o wybodaeth neu i sgwrsio gyda swyddog:

www.comisiynyddygymraeg.cymru/hybu

hybu@comisiynyddygymraeg.cymru

0345 603 3221

Neu cysylltwch a'n Tim Cymraeg ar cymorthcymraeg@cronfagymunedolylg.org.uk os hoffech gyngor ar gyfieithu, recriwtio a phob elfen o gyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Comisiynydd y Gymraeg Welsh Language Commissioner